


Cydweli

Cynllun Twf Economaidd Cynaliadwy



Drafft ymgynghori - Gorffennaf 2021





Cydweli – Cynllun Twf Economaidd Cynaliadwy

Drafft ymgynghori

PARATOWYD Y DDOGFEN GAN OWEN DAVIES
CONSULTING & CHILMARK CONSULTING AR GYFER
CYNGOR SIR GAR

All maps within this document are:

Reproduced from Ordnance Survey with permission of the
controller of Her Majesty's Stationary Office (C)

© Crown copyright and database rights [2020] Ordnance
Survey 100023377

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2020] Arolwg
Ordnans 100023377

Unauthorised reproduction infringes Crown copyright
and may lead to prosecution/civil proceedings.

Cynnwys

1 – Diben	4
2 – Ardal y Cynllun	5
3 – Y Darlun Economaidd Ehangach	6
4 – Yr Ystyriaethau Allweddol	8
5 – Gweledigaeth Ddrafft ac Amcanion	9
6 – Camau i'w Blaenoriaethu	11
7 – Cyllid a'r Camau Nesaf	22

1 – Diben


Mae'r Cynllun Twf Economaidd Cynaliadwy hwn ar gyfer Cydweli yn ymwneud ag adferiad economaidd yn dilyn y pandemig, yn ogystal â ffyniant a thwf mwy hirdymor y dref a'r ardal o'i chwmpas dros y pum mlynedd nesaf ac ymhellach i'r dyfodol.

Diben y Cynllun yw cynnig gweledigaeth strategol hirdymor a nodi cynigion manwl ar gyfer cyflawni cynaliadwyedd a thwf economaidd. Y nod yw creu cyflogaeth newydd a pherfformiad economaidd cryfach a fydd yn ei dro yn arwain at gynaliadwyedd cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol y dref a'r cymunedau o'i chwmpas sy'n ei bwydo.

Caiff y cynllun ei baratoi fel rhan o Fenter Deg Tref Cyngor Sir Gaerfyrddin a chaiff ei gyflawni ar ran Grŵp Gweithredu Lleol (LAG) Sir Gaerfyrddin. Caiff ei gyllido'n rhannol gan Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020, a gyllidir gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD).

Mae hwn yn ddrafft ymgynghori sydd wedi'i gynllunio i fod yn hygyrch a ffocws ar y themâu craidd a'r camau â blaenoriaeth. Gellir dod o hyd i ragor o fanylion yn y Cynllun Gwaelodlin o fis Chwefror 2021, yn enwedig ar gyfer cyd-destun economaidd a cymdeithasol y dref a'r rhanbarth.

Ffigur 1 Ardal a chyd-destun lleoliad yr astudiaeth




2 – Ardal y Cynllun

Mae Cydweli yn dref arfordirol hanesyddol ar lan Afon Gwendraeth ac iddi gastell adnabyddus a deniadol a chanol cryno i'r dref. Mae'r ardal yn cynnwys cymuned Mynyddgarreg ac mae iddi boblogaeth sy'n tyfu, ond sy'n heneiddio, o tua 3,660.

Mae i Gydwelli gyfoeth o hanes canoloesol a hanes diwydiannol dilynol, gan gynnwys camlas hanesyddol Kymer, y Cei a'r hen amgueddfa ddiwydiannol. Mae busnesau lleol amlwg gan gynnwys Gravells a Burns ochr yn ochr â busnesau cenedlaethol eu perchnogaeth, fel Parc Gwyliau Bae Caerfyrddin (Park Dean Resorts), Travis Perkins a Co-Op.

Mae busnesau a chwmnïau niferus i'w cael yn yr ardal o gwmpas, yn ogystal ag asedau economaidd sylweddol gan gynnwys safle rasio ceir a maes awyr Pen-bre. Mae'r economi leol fodd bynnag yn ddibynnol ar fusnesau siopau a lletygarwch ac mae'n ddibynnol ar drefi cyfagos Caerfyrddin a Llanelli am siopau nwyddau mwy, gwasanaethau, a mwy o gyfleoedd gwaith.

Ffigur 2 Cyd-destun ardal y Cynllun




3 – Y Darlun Economaidd Ehangach

Mae'r darlun economaidd ar gyfer Cydweli yn cael ei ddylanwadu'n drwm gan y cynlluniau Sir Gar ar gyfer adfer economi yn dilyn pandemig Coronafeirws yn ogystal â'r blaenoriaethau strategol tymor y Sir a Bargaen Dinas Bae Abertawe.

Mae dau brif gonglfaen i adferiad economi Sir Gâr, sef pwysleisio'r lleol a gweithredu ar lefel lleol, a gwneud yr holl economi'n fwy cystadleuol. Mae'r camau gweithredu i gefnogi'r adferiad yn canolbwyntio ar themâu allweddol – Busnes, Pobl a Lle ynghyd â blaenoriaethu pedair uchelgais drawsbynciol:

- **Cysylltedd digidol cwbl ddibynadwy** a diwylliant digidol – a fydd yn sail i adferiad a thwff ledled yr holl economi
- **Sgiliau** – cadw, ailsigilio, uwchsgilio a sicrhau bod gan bobl y sgiliau iawn i gyflawni'r swyddi a gaiff eu creu.
- **Economi werdd** – seilwaith carbon isel sy'n gallu gwrthsefyll newid hinsawdd, ynni adnewyddadwy a chartrefi cynaliadwy.
- **Economi deg a chydadd** a chefnogaeth i'r iaith a'r diwylliant Cymraeg

Ffigur 3 Colofnau adferiad economaidd Sir Gaerfyrddin



Mae'r cyd-destun strategol hefyd yn cynnwys blaenoriaethau Cyngor Sir Gaerfyrddin, Dinas-Ranbarth Bae Abertawe a Llywodraeth Cymru, ynghyd â dylanwad cynyddol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Chynlluniau Llesiant Lleol.

Mae un o nodau allweddol y Ddeddf yn galw ar gyrrff cyhoeddus i fod yn fwy hyblyg er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymateb i amgylchiadau economaidd sy'n newid yn barhaus ac ymateb i'r eithaf ar gyfleoedd newydd am dwf. Gweithredir datblygu cynaliadwy drwy'r holl broses, yn ogystal â ffyrdd newydd o weithio i sicrhau bod awdurdodau lleol yn ystyried yr hirdymor, yn rhwystro problemau rhag digwydd neu waethgu, a mabwysiadu dull cyfannol a chydweithredol sy'n canolbwyntio ar bobl.

Ffigur 4 Dylanwadau Strategol



4 – Yr Ystyriaethau Allweddol

Mae dadansoddiad llinell sylfaen o ardal Cydweli wedi cael ei gwblhau, a wnaeth adnabod y cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau allweddol (SWOT) a gwerthuso perfformiad presennol Cydweli cyn paratoi cynllun newydd. Diben y dadansoddiad SWOT yw darganfod beth sy'n gweithio'n dda, a beth nad yw cystal. Mae'n edrych hefyd ar sut y gallai'r dref ddymuno tyfu, a sut y gallai gyflawni hynny; yn ogystal â beth allai fod yn rhwystrau.

Ffigur 5 Dadansoddiad SWOT Cydweli

Cryfderau allweddol

- Poblogaeth sy'n tyfu
- Cyflogwyr sefydledig lleol allweddol, gan gynnwys Gravells a Burns
- Castell Cydweli sy'n denu tua 30,000 o ymwelwyr y flwyddyn
- Atyniadau ehangach o ran treftadaeth ac ymwelwyr gan gynnwys Camlas a Chei Kymer, Eglwys y Santes Fair, Parc y Bocs, Parc Gwyliau Bae Caerfyrddin a safle rasio ceir
- Gorsaf reilffordd gyda chysylltiadau uniongyrchol â'r Gorllewin, Caerfyrddin, Abertawe, Caerdydd a Manceinion
- Llwybr Arfordir Cymru, Llwybr Beicio Cenedlaethol a llwybrau cerdded helaeth
- Graddau uchel o weithgarwch cymunedol, mudiadau ac ymwneud lleol

Gwendidau allweddol

- Poblogaeth sy'n heneiddio
- Pcedi cudd o amddifadedd economaidd-gymdeithasol llym o fewn y dref
- Anweithgarwch economaidd uwch na'r cyfartaledd a lefelau isel o hunan-gyflogaeth
- Busnesau ac atyniadau canol y dref ddim digon amrywiol a deniadol
- Nifer bach o ficrofusnesau
- Dibyniaeth ar fwyd, diod, llety a lletygarwch
- Dibyniaeth ar Lanelli a Chaerfyrddin am gyflogaeth
- Prinder a diffyg amrywiaeth lleoedd cyflogaeth sydd ar gael, yn enwedig i fusnesau bach
- Adeiladau / safleoedd gwag amlwg
- Lefelau isel o wariant ymwelwyr

Cyfleoedd allweddol

- Cyllid a sicrhawyd yn ddiweddar o Gronfa Cymunedau'r Arfordir i gefnogi mentrau marchnata a brandio lleol, digwyddiadau a thwf yr economi
- Cynigion ar gyfer ailagor yr Amgueddfa Daiwydiannol ac atyniadau treftadaeth newydd i ymwelwyr yng nghanol y dref
- Buddsoddiad i ehangu a chreu mentrau newydd gan fusnesau lleol allweddol
- Defnyddio safleoedd ac adeiladau presennol i ddibenion eraill
- Buddsoddiad ar gael ar gyfer seilwaith tref glyfar ('SMART') a thechnoleg ddigidol
- Cymorth ar gael i'r economi gylochol a chynhyrchu ynni yn lleol

Bygythiadau allweddol

- Effeithiau economaidd a chymdeithasol mwy hirdymor Covid-19
- Buddsoddiad busnes lleol yn tueddu tuag at ganolfannau mwy gerllaw, ee Caerfyrddin a Llanelli

5 – Gweledigaeth Ddrafft ac Amcanion

Mae'r Cynllun wedi cael ei ddrafftio ar adeg pan fo graddau uchel o ansicrwydd yn parhau ynghylch natur yr adferiad economaidd yn dilyn y pandemig yn ogystal ag effeithiau Brexit (yn rhai cadarnhaol a negyddol). Mae'r adferiad yn debygol o fod yn raddol a gall gymryd llawer o flynyddoedd i'r economi adfer i'w lefel flaenorol.

Yn ogystal â phwyslais y Llywodraeth a Sir Gaerfyrddin ar amddiffyn swyddi a diogelu busnesau, mae angen canolbwyntio mwy hirdymor ar heriau sy'n cyfyngu ar dwf a chyfluoedd economaidd yng Nghydweli. Mae'r rhain yn cynnwys llawer o'r heriau a wynebir gan gymunedau lleol gan gynnwys poblogaethau'n heneiddio, lefelau isel o fentergarwch, cynhyrchiant a chyflogau, diffygion sgiliau, rhy ychydig o fusnesau yn 'uwchraddio', a'r angen am fuddsoddiad mewn seilwaith a safleoedd modern i fusnesau.

Mae'r weledigaeth ddrafft a nodir yma yn cynnwys cyfres o flaenoriaethau a chynigion am economi lewyrchus gynaliadwy i Gydweli sy'n cefnogi tref a chymuned wledig byrlymus a chydgysylltiedig, sy'n apelgar i bawb, gan gynnwys pobl ifanc a theuluoedd.

Dylai Cydweli fod yn lle mae swyddi da yn gyraeddadwy, busnesau newydd yn cychwyn a'r nifer bach o fusnesau lleol mawr sydd eisoes wedi eu gwreiddio yn y gymuned yn cael eu hannog i dyfu. Y darlun sydd gennym yw lle mwy amrywiol ac apelgar i ymweld ag ef drwy gydol y flwyddyn, sy'n manteisio i'r eithaf ar y dreftadaeth arbennig a'r amgylchedd naturiol lleol yn ogystal â'r diwylliant lleol a'r iaith Gymraeg.

Amcanion

Dylid cefnogi a gwireddu'r amcanion hyn trwy'r camau sy'n esblygu o'r Cynllun hwn.

Dylid cefnogi a gwireddu'r amcanion hyn trwy'r camau sy'n esblygu o'r Cynllun hwn.

1. Amrywio'r sail economaidd ac ehangu'r amrediad o sectorau busnes a chyfleoedd cyflogaeth sydd ar gael drwy'r flwyddyn. Mae sectorau twf allweddol yr economi'n cynnwys uwch-weithgynhyrchu a uwch-beirianeg, diwydiannau creadigol, yr economi werdd, amaethyddiaeth, a chynhyrchu bwyd.
2. Gwella ansawdd busnesau lletygarwch, manwerthu, llety a diwylliant/hamdden sydd â'r potensial i dyfu ac ychwanegu gwerth trwy ehangu cyrraeddad economi ymwelwyr y dref.
3. Creu lleoedd gweithio newydd ac ailddefnyddio adeiladau dros ben i annog mentergarwch, cychwyn busnesau a thwf busnesau.
4. Annog twf a buddsoddiad yn y busnesau lleol mawr sydd eisoes wedi eu gwreiddio yn ardal Cydweli a'u helpu i ddarparu swyddi cyflogedig medrus ac o ansawdd da.
5. Hyrwyddo cyflenwad a gwerthiant lleol amaethyddiaeth, prosesu bwyd a nwyddau a weithgynhyrchir yn lleol.
6. Annog busnesau sy'n tyfu'r economi gylchol a mentrau sy'n cefnogi'r trawsnewid at economi carbon isel.

Pobl – annog mentergarwch, cefnogi sgiliau busnes a hyfforddiant

1. Cefnogi uwchsgilio'r rheini sy'n gweithio mewn sectorau targed, megis gwella sgiliau digidol
2. Sicrhau bod pobl hunan-gyflogedig, masnachwyr a microfusnesau yn cael eu helpu i ddatblygu eu sgiliau busnes a'r hyder i dyfu ee cymorth i gynllunio busnes, sgiliau digidol, sgiliau marchnata, etc.
3. Cefnogi'r defnydd o'r gallu i siarad Cymraeg yn y gweithle a chryfhau'r cysylltiadau rhwng yr iaith a datblygu economaidd.

Lle – buddsoddi mewn gwella tir y cyhoedd, adeiladau allweddol a seilwaith

1. Gwella tir y cyhoedd yn y dref i beri iddo deimlo'n fwy cyfannol, croesawgar, cyfeillgar i gerddwyr a chreu'r amodau i annog busnesau sy'n bod eisoes i dyfu ac i fusnesau newydd gychwyn
2. Canfod dibenion newydd i adeiladau amlwg gwag a fydd yn cryfhau'r economi
3. Gwella ansawdd, cysondeb a lleoliad arwyddion a gwybodaeth i ymwelwyr i dynnu sylw mwy o ymwelwyr a'u hannog i brofi'r dref gyfan
4. Buddsoddi mewn brandio a marchnata penodol ar gyfer Cydweli i wrthweithio effeithiau Covid-19, hyrwyddo cryfder y dref fel cyrchfan dreftadaeth ac annog gweithgareddau sy'n uwch o ran ansawdd a gwerth
5. Cefnogi buddsoddiad mewn menter Tref Glyfar sy'n arfogi'r dref â seilwaith ddigidol gan annog y defnydd o dechnoleg ddigidol i reoli'r economi ymwelwyr, darparu gwasanaethau a chefnogi busnesau lleol.

6 – Camau i'w Blaenoriaethu

Mae'r cynllun ar gyfer Cydweli yn cynnwys prosiectau ffisegol ac anffisegol. Mae'r adran hon yn amlinellu'r camau i'w blaenoriaethu sy'n deillio o'r weledigaeth a'r amcanion. Bydd y prosiectau hyn yn ddibynnol ar gronfeydd cyfalaf a refeniw ac ar weithio mewn partneriaeth ymysg amryw o asiantaethau a grwpiau. Fodd bynnag, mae llwyddiannau ariannol o ennill Cyllid Cymunedau'r Arfordir i Gydweli, y cymorth a neilltuwyd eisoes trwy Fenter y Deg Tref ac astudiaethau dichonoldeb sy'n parhau, yn golygu y bydd potensial i gyflawni llawer o'r camau gweithredu a nodir yn y cynllun hwn.

Ffigur 6 Prosiectau i'w Blaenoriaethu

A) Creu canol tref mwy deniadol a llewyrchus

A1) – Amgylchedd y Castell at Stryd y Bont

Byddai ailddylunio'r llecynnau cyhoeddus presennol ac amgylchedd y stryd yn helpu creu cyswllt deniadol, croesawgar, cyfannol a diogel rhwng y Castell, canol y dref a'r tu hwnt. Dylai astudiaeth ddylunio archwilio dewisiadau i ledu palmentydd a chreu llecynnau ar y cyd, gwella pwyntiau croesi, gwella darllenadwyaeth, rheoli llif traffig, a gwella'r olwg gyffredinol.

Byddai hyn yn gwella safleoedd y busnesau ac atyniadau sydd wedi eu lleoli ar hyd Stryd y Bont, gwella cysylltiadau cerdded a beicio a'r cylchredeg sy'n annog symudiad ymwelwyr trwy ganol y dref. Byddai hefyd yn sicrhau bod canol y dref yn gweithredu'n fwy effeithiol fel cyfanrwydd ac yn cefnogi Llwybr Arfordir Cymru a'r Llwybr Beicio Cenedlaethol sy'n mynd drwyddo.



Byddai gwelliannau yn helpu gwrthsefyll y dirywiad hirdymor yn amrywiaeth ac ansawdd siopau a gwasanaethau canol y dref yn ogystal ag annog y busnesau presennol i fuddsoddi a chreu cyfleoedd i fusnesau newydd agor. Dylid hefyd ystyried cymorth grantiau i fusnesau fuddsoddi yn eu safleoedd eu hunain (yn enwedig ffryntiau siopau ac wynebau blaen adeiladau) yn unol â'r gwelliannau i dir y cyhoedd.

A2) – Y Sgwâr

Paratoi dewisiadau ar gyfer ailddylunio llecynnau presennol y cyhoedd i greu 'sgwâr marchnad' sy'n sylweddol well. Dylai'r llecyn hwn a ailddychmygir weithredu fel canolbwynt i weithgareddau sifig y dref, hamdden anffurfiol, dibenion busnes a gwell lleoliad i'r farchnad awyr agored sy'n tyfu.

Fodd bynnag, caiff y llecyn ei lesteirio gan ei osodiad a nodweddion eraill gan gynnwys y lle mae'r gerbyttfordd yn ei gymryd. Mae gwelliannau'n cynnwys clirio'r llecyn, ail-leoli'r safle bws, a symud y celfi stryd i agor y llecyn presennol.

Wrth adolygu'r llecyn hwn, dylid hefyd archwilio dichonoldeb cau'r ffordd dros dro i draffig drwodd ar ddyddiau marchnad. Mae astudiaethau blaenorol (Mackley Davies 2004) yn cynnig man cychwyn defnyddiol ar gyfer ailddychmygu'r Sgwâr, ond byddai angen ailystyried hyn yn ngoleuni'r gofynion presennol o wella'r llecyn hwn a chynyddu cylchrediad cerddwyr yn ogystal â chreu llecyn i'r stondinau marchnad.



A3) – Hen Neuadd y Dref

Mae hen neuadd y dref wedi sefyll yn wag ers sawl blwyddyn ac mae'n adeilad rhestredig hanesyddol amlwg iawn sy'n dylanwadu ar osodiad canol y dref a'r canfyddiad ohono. Mae'r eiddo ar werth gan y perchnogion, Cyngor Sir Gaerfyrddin, ac mae amryw o fuddsoddwyr preifat wedi dangos diddordeb er bod y gost o adfer yr adeilad rhestredig yn rhwystr rhag ei ailddatblygu.

Mae'r adeilad mewn safle delfrydol i gael ei ddefnyddio i greu cyrchfan ychwanegol a chynyddu graddau troedio yng nghanol y dref trwy aildddefnyddio adeilad trawiadol a hanesyddol mewn modd dychmygus. Bydd rôl yr awdurdod lleol yn allweddol i helpu ysgogi gwelliannau trwy naill ai addasu ysgafn ar gyfer ei aildddefnyddio, neu ailddatblygu mwy sylweddol.


Dylid cyflawni astudiaeth arfarnu dewisiadau i archwilio'r aildddefnyddio, a gellid ystyried amrywiol lefelau o ymyrraeth gan gynnwys defnydd masnachol; lle ar gyfer gwaith cyflogedig; atyniadau creadigol megis chwarae antur dan do, dringo waliau etc; gwybodaeth i ymwelwyr, lleoliad cymunedol a digwyddiadau.

A4) – Tref glyfar ‘SMART’

Mae cyfle gan Gydweli i ddod yn dref glyfar – SMART – sy’n casglu data trwy ddulliau electronig a synwryddion i ddeall sut mae pobl yn defnyddio’r dref a chefnogi ei datblygiad economaidd. Gellir casglu llawer o wahanol fathau o ddata trwy rwydwaith tref SMART, megis cyfraddau troedio ac amser a dreulir neu’r nifer o ymwelwyr newydd â’r dref a tharddiad eu taith.

Yn aml, caiff y data a gesglir trwy rwydwaith tref glyfar ei ddarparu’n rhad ac am ddim i fusnesau lleol mewn modd gweladwy a syml. Mae Aberteifi’n enghraifft o dref gyda rhwydwaith tref glyfar ar waith, lle mae perchnogion busnesau yn derbyn yn rheolaidd ddata a dderbynnir (gan gynnwys cyfraddau troedio, amser a dreulir a’r nifer o ymwelwyr newydd â’r dref) yn ogystal ag unrhyw dueddiadau allweddol a adnabyddir o’r data.

Byddai rhwydwaith tref glyfar yn galluogi busnesau, y Cyngor Tref, a sefydliadau a mudiadau lleol i ennill dealltwriaeth fanwl o sut mae pobl yn defnyddio’r dref a beth mae’n ei olygu i’w busnes. Gall defnyddio’r data hwn fel sail ar gyfer penderfyniadau staffio a chyflogi, cynyddu effaith hyrwyddo yn ogystal â helpu adnabod marchnadoedd newydd a dal gwariant cwsmeriaid. Gallai hyn olygu hwb sylweddol, ac iddo’r potensial o ysgogi cyfraddau troedio a gwariant uwch yn ogystal â ffurfio rhan o becyn sydd hefyd yn denu busnesau newydd i sefydlu yn y dref.



Mae eisoes gynigion i baratoi cynllun gweithredu digidol ar gyfer Cydweli trwy fenter tref SMART o dan arweiniad Swyddog Cysylltedd Digidol Cyngor Sir Gaerfyrddin a dylai’r cynigion a nodir yn y cynllun hwn osod sail ar gyfer y gwaith hwn.

B) – Cynyddu amlygrwydd Cydweli a datblygu atyniad yr economi ymwelwyr

B1) Trysorau'r Filltir Sgwâr

Menter yw Trysorau'r Filltir Sgwâr sy'n hyrwyddo'r syniad o ddod â hanes lleol ardal at ei gilydd yn hawdd er mwyn datblygu profiadau cydgysylltiedig a dealladwy o adeiladau, cofgolofnau a thirweddau hanesyddol lleol. Mae'r neges yn hawdd i ymwelwyr ei deall a chaiff ei hyrwyddo ar hyn o bryd gan Cadw fel ffordd o dynnu sylw at bwysigrwydd a chyfoeth y dreftadaeth sy'n agos i ganol trefi.

Ffigur 7 – Trysorau'r Filltir Sgwâr



Mae Cydweli'n lle addas ar gyfer mabwysiadu dull Trysorau'r Filltir Sgwâr i wella ymwybyddiaeth ymwelwyr a phecynnu'r atyniadau presennol sydd o fewn pellter cerdded hawdd i ganol y dref – Castell Cydweli (1), Eglwys y Santes Fair (2), Neuadd y Dref (3), Camlas a Chei Kymer (4). Mae'r potensial o glymu'r asedau hyn gyda'i gilydd yn cynnwys hyrwyddo'r rheini na sylwir arnynt yn aml gan ymwelwyr, megis y Lladd-dy o'r 19eg ganrif, y gamlas a'r cei, a'u cysylltu nhw ag atyniadau ymhellach i ffyrdd yn Parc y Bocs (6) a safle'r Amgueddfa Ddiwydiannol (5).

Mae'r llwybr arfaethedig, Llwybr y Gath Ddu (Cronfa Cymunedau'r Arfordir) yn gyfres o gerfluniau o gathod a gomisiynwyd ac a osodwyd o amgylch tirnodau ac atyniadau lleol a gallai fod yn elfen drawiadol wedi'i brandio ar gyfer menter Trysorau'r Filltir Sgwâr.

B2) – Castell Cydweli

Caiff Castell Cydweli ei ystyried ymysg cestyll gorau Cymru ac mae'n denu tua 30,000 o ymwelwyr y flwyddyn. Dyma brif atyniad treftadaeth Cwm Gwendraeth a daeth i amlygrwydd helaeth hefyd yn yr olygfa gyntaf un o 'Monty Python and the Holy Grail'. Cadw sy'n gyfrifol am y castell ac maen nhw'n cydnabod y cyfleoedd i Gastell Cydweli i ddod yn ysgogydd economaidd cryfach i'r economi leol o safbwynt nifer ymwelwyr a gwariant lleol.

Er enghraifft, mae gan Cadw gynnig addysg ac mae'n sefydliad sy'n cefnogi Gwobr Celfyddydau – gweler

<https://cadw.llyw.cymru/dysgu>. Mae'r castell yn cynnig cyfle dysgu allweddol i'r ifanc a'r hen, pobl leol ac ymwelwyr fel ei gilydd i ddysgu am y dreftadaeth leol gyfoethog – yr Arglwydd Rhys, Gwenllïan a'u tebyg, ond hefyd y cysylltiadau â safleoedd yn yr ardal ehangach fel Dinefwr ac Ystrad Fflur.

Mae'r castell hefyd yn lle i'w archwilio mewn ffyrdd eraill ac i ddod yn greadigol ynddo ac o'i gwmpas yn ogystal â lle am fyfyrdd tawel a mwynhau'r natur o'i gwmpas. Gan ddibynnu ar adnoddau, gellid datblygu cyfleoedd am wirfoddoli o'r gymuned leol i helpu cefnogi'r castell, ymwelwyr a'r dref, a hyfforddi 'croesawyr' i ddeall y cynnig a hyrwyddo'r dref.



Mae angen am strategaeth gydgfegnogol sy'n sicrhau bod y dref a'r castell yn gweithio gyda'i gilydd i gynyddu nifer yr ymwelwyr a chefnogi teithiau hirach o ran hyd i Gydweli sy'n cynnwys mwy nag un atyniad yn ogystal â chyfleusterau canol y dref. Dim ond trwy wella'r profiad cyffredinol o Gydweli, gan gynnwys golwg a bywiogrwydd canol y dref ac atyniadau ehangach, y bydd y nifer o ymwelwyr a'u gwariant yn tyfu.

Mae'r Cynllun yn cynnig model newydd gan gynnwys y syniadau ar gyfer hyrwyddo Trysorau'r Ffilltir Sgwâr a'r Castell fel y gonglfaen. Mae mentrau o'r fath yn ei gwneud yn ofynnol i Cadw, y Cyngor Tref, Cronfa Cymunedau'r Arfordir a busnesau lleol i weithio mor agos â phosibl gyda'i gilydd i wella'r marchnata, seilwaith a'r digwyddiadau lleol i ymwelwyr.

B3) – Arwyddion a gwybodaeth am y gyrchfan

Mae angen i'r dref wella'r ffordd y rhoddir gwybodaeth i ymwelwyr, a sut maent yn darganfod eu ffordd o le i le wrth chwilio am y lletygarwch a'r atyniadau. Dylid gwneud gwelliannau a fydd yn disodli'r arwyddion presennol ag arwyddion cyrchfan ystyrlon, wedi eu lleoli'n dda ac o ansawdd uchel cyson. Dylai hyn gynnwys:

- gwell arwyddion gwybodaeth 'brown' i ymwelwyr sy'n hyrwyddo amrediad llawn y cyfleusterau a'r atyniadau, a'r rheini wedi eu lleoli'n amlwg ar y prif byrth i'r dref ar hyd yr A484 a hefyd yng ngorsaf reilffordd Cydweli
- integreiddio brand 'y gath ddu' a ailddatblygir (menter Cronfa Cymunedau'r Arfordir)
- arwyddion pellter cerdded/amser teithiau i annog cerdded a chrwydro – gan gynnwys Trysorau'r Ffilltir Sgwâr
- defnydd cyson o arwyddion dwyieithog ac o bosibl ar gyfer ymwelwyr tramor
- gweithio gyda'r wefan integredig arfaethedig 'Croeso Cydweli', a ddatblygir yn unswydd er mwyn amlygu atyniadau o gwmpas Cydweli (Cronfa Cymunedau'r Arfordir)
- Gwybodaeth Tref Glyfar digidol i ymwelwyr (gweler isod)

Figure 8 Visitor symbols sign redesign



B4) – Atyniadau newydd i ymwelwyr

Mae'r Cynllun yn cefnogi buddsoddiad gan sefydliadau busnes a rhanddeiliaid sy'n cryfhau amrywiaeth ac ansawdd atyniadau ymwelwyr y dref ac ymestyn hyd arosiadau a'r potensial am gynydd mewn gwariant ymwelwyr. Mae'n cynnwys yr amrywiaeth fusnesau sydd yng nghanol y dref, gweithgareddau newydd ac atyniadau ymwelwyr gan gynnwys y potensial ailddefnyddio Neuadd y Dref, cryfhau'r defnydd o sgwâr y dref, llety newydd a chynigion sy'n dod i'r amlwg am atyniad treftadaeth newydd.

Dylid archwilio gwelliannau ar raddfa fach i 'fywiogi' atyniadau sy'n bod eisoes, gan gynnwys er enghraifft gyfleoedd i fusnes lleol weithredu stondin symudol dros dro yn cynnig te neu goffi ger Camlas a Chei Kymer. Mae'r atyniadau newydd yn cynnwys ailagoriad posibl yr Amgueddfa Ddiwydiannol (yn amodol ar astudiaeth ddichonoldeb sy'n cael ei gwneud ar hyn o bryd) a chynigion sy'n cychwyn dod i'r amlwg am Sied Hanes. Mae astudiaeth ddichonoldeb eisoes yn archwilio'r posibilrwydd o adnewyddu ac ehangu hyd 5km llawn Camlas Kymer ochr yn ochr â llwybr i gerddwyr a beicwyr ar hyd llwybr Rheilffordd Gwendraeth (Cydweli i'r Tymbl).

Bydd Cronfa Cymunedau'r Arfordir yn cefnogi gwyliau a digwyddiadau newydd gan weithio mewn partneriaeth â grwpiau a sefydliadau lleol i ddatblygu dau neu dri o syniadau allweddol am wyliau a digwyddiadau unigryw sy'n adlewyrchu hunaniaeth brand y dref. Mae'r cynigion yn destun asesiadau dichonoldeb unigol ac angen eu datblygu, ond gyda'i gilydd maent yn amlygu'r potensial sylweddol ar gyfer cryfhau ymhellach mäs critigol ac amlygrwydd Cydweli fel cyrchfan dwristiaeth treftadaeth.

B5) – Twristiaeth glyfar SMART

Gall y rhwydwaith tref glyfar a grybwyllir uchod, yn enwedig un sy'n cynnwys rhwydwaith Wi-Fi drwy'r dref, fod yn fantais aruthrol ar gyfer deall yn fanwl natur economi ymwelwyr tref, datblygu dangosyddion perfformiad ar gyfer brand Cydweli ar gyfer ymwelwyr a chreu economi ymwelwyr sy'n gryfach ac yn fwy cynaliadwy yn economaidd.

Dim ond trwy rwydwaith Wi-Fi ar gyfer y dref y gellir darganfod nifer yr ymwelwyr, ymweliadau, tarddiad ymwelwyr, amser a dreulir a'r canolbwyntiau lle mae pobl yn crynhoi mewn tref. Gellir casglu hyn, law yn llaw â data gwerthfawr arall, a'i gyfleu i fusnesau lleol i'w helpu nhw i ddatblygu ac addasu eu hymgyrchoedd marchnata, adnabod marchnadoedd a chwsmeriaid newydd posibl yn ogystal â gwella eu heffeithlonrwydd gweithredol, trwy wneud y penderfyniadau mwyaf addas ar gyfer staffio er enghraifft. Mae'r data a gesglir yn helpu adeiladu darparu manwl a chyfoes o sut mae ymwelwyr yn defnyddio'r dref.

Yng Nghydweli gallai hyn osod sail ar gyfer menter o fewn y cynllun gweithredu digidol a chysylltu'r Castell â chanol y dref. Mae deall nifer a chanran yr ymwelwyr sy'n ymweld â chanol y dref o gymharu â chyfanswm ymwelwyr â'r dref yn helpu datblygu dealltwriaeth o raddfa'r cyfle sydd i gipio gwariant ychwanegol.

Mae casglu'r data hwn hefyd yn rhoi llinell sylfaen y gellir gosod targedau clyfar ohoni gan randdeiliaid allweddol megis Cyngor Sir Gaerfyrddin, Cadw a'r Cyngor Tref, er enghraifft. Gallai'r targedau hyn gynnwys ceisio cynnydd o 30 munud yn yr amser cyfartalog a dreulir gan ymwelwyr, neu gynnnydd o 50% yn y nifer o ymwelwyr sy'n cerdded o'r castell i ganol y dref. Mae twristiaeth SMART yn galluogi adnabod y cyfleoedd hyn a gosod targedau a'u gwerthuso maes o law.

Yn ogystal â chynnig gwybodaeth werthfawr ar ganol y dref, gall rhwydweithiau trefi clyfar wella profiad ymwelwyr o'r dref mewn modd uniongyrchol. Enghraifft o Aberteifi yw cynnig y dewis i gofrestru i dderbyn cylchlythyr newyddion wrth ymuno â rhwydwaith Wi-Fi y dref, sy'n ennyn diddordeb ymwelwyr yn y dref a'u hannog i ymwneud â hi, ac mae'n hyrwyddo digwyddiadau sydd ar ddod a chynigion gan fusnesau. Yn ogystal, gellir gosod hysbysiad gwthio ar seiliedig ar leoliadau, fel yn Aberteifi, sy'n anfon neges ar ffôn ymwelydd pan maen nhw gerllaw lleoliad penodol i'w hannog i ymweld â lle penodol, megis Eglwys y Santes Fair neu siop yng nghanol y dref.

B6)- Gwefru Cerbydau Trydan

Mae tyfu ffyniant economi Cydweli, yn enwedig trwy ddenu ymwelwyr newydd, yn cynnwys yr angen am seilwaith newydd i'w gynnal. Mae pwyntiau gwefru cerbydau trydan eisoes yng Nghanolfan y Dywysoges Gwenllian a Gravells. Fodd bynnag, dylai gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan ym mhrif feysydd parcio'r dref, gefnogi'r twf mewn ymweliadau â chanol y dref gan y rheini sydd angen treulio mwy o amser yn y dref. Byddai gwelliannau hefyd yn annog y defnydd o geir trydan yn y gymuned leol, a thrwy hynny gefnogi economi carbon isel.

Ffigur 9 Map o bwyntiau gwefru cerbydau trydan yn y dref



C) – Creu cyfleoedd am dyfu ac ehangu busnesau newydd

Mewn ardaloedd gwledig mae gan y sector cyhoeddus hefyd rôl bwysig i'w chwarae wrth weithio gydag amrywiaeth o ddatblygwyr a thirfeddianwyr lleol llai i fynd i'r afael â'r rhwystrau rhag datblygiad. Mae'r rhai yn cynnwys ymdrin â'r bwch hyfywedd rhwng cost adeiladu a moderneiddio lleoedd cyflogaeth newydd a'r incwm rhent; a rôl ddatblygu economaidd bwysig wrth arwain datblygwyr bach trwy'r broses gynllunio.

Mae'r dewisiadau ar gyfer creu cyflogaeth a lleoedd gwaith newydd yn cynnwys:

- Ailddefnyddio adeiladau sydd mewn perchnogaeth gyhoeddus a sydd dros ben, fel Neuadd y Dref a hen adeiladau ysgol gwag
- Gweithio gyda pherchnogion i helpu addasu adeiladau masnachol gwag ee safleoedd gwag ar hyd Banc Pendre
- Gweithio gyda sefydliadau cymunedol fel Canolfan y Dywysoges Gwenllïan i greu dewisiadau o ran swyddfeydd neu leoedd gweithio ar y cyd gan ddefnyddio lleoedd cyfarfod presennol
- Cefnogi hyfywedd creu lleoedd newydd ar gyfer cyflogaeth/busnes trwy ddatblygu safleoedd newydd ac ailddatblygu safleoedd presennol ar gyfer defnydd cymysg gan gynnwys safleoedd a danddefnyddir ar Banc Pendre a Maes Awyr Pen-bre.

C1) – Lleoedd gwaith i fusnesau

Mae amryw o ddewisiadau ar gyfer mynd i'r afael â'r prinder swm a mathau o leoedd gwaith sydd ar gael ac i greu cyfleoedd i annog mentrau newydd a thwf busnesau yn ardal Cydweli.

Mae'r rhain yn cynnwys ailddefnyddio adeiladau dros ben a gwag yng nghanol y dref, creu lleoedd o fewn adeiladau cyhoeddus a chymunedol sy'n bod eisoes ac adeiladu o'r newydd.

C2) – Economi Gymraeg yng

Nghydsweli

Gyda 43% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg yng Nghydsweli, mae'n dal i fod yn agwedd bwysig o'r economi leol ac mae cyfle i gefnogi twf busnesau lleol trwy gyfrwng yr iaith. Mae'r Fenter Iaith leol wedi bod yn asesu'r gefnogaeth i'r Gymraeg a'r defnydd ohoni yn yr ardal ac yn gweithio gyda sefydliadau lleol i helpu tyfu'r iaith ar lawr gwlad.

Mae Helo Blod yn asiantaeth o dan nawdd Llywodraeth Cymru ac iddi'r nod o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn busnes yn yr ardal a darparu gwasanaethau cymorth unigol i fusnesau trwy'r swyddog Helo Blod lleol.

Yng Nghydsweli, mae i ddefnyddio'r Gymraeg trwy fusnes a'r economi y potensial o atgyfnerthu'r hyn sy'n gwneud y dref yn wahanol ac arddangos ei hunaniaeth a'i threftadaeth leol. Mae'r rhain yn cyfuno i wneud profiad mwy apelgar i ymwelwyr yn ogystal â chefnogi twf busnesau lleol Cymraeg a chadw cwsmeriaid lleol.

7 – Cyllid a'r Camau Nesaf

Cyllid

Yn ddiweddar mae Cydweli wedi derbyn cyllid o Gronfa Cymunedau'r Arfordir i gefnogi'r marchnata a hyrwyddo'r dref. Hefyd, yn ymateb i COVID-19, mae cyngor Sir Gâr wedi sefydlu adnoddau newydd i gefnogi'r adferiad a thwŦ economaidd o drefi gwledig yn y sir. Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a rhaglen RDP Leader, bydd ystod o fentrau a chymorth busnes newydd ar gael.

Mae'r Cynllun TwŦ Economaidd Cynaliadwy am Gydweli yn rhan bwysig o adnabod anghenion lleol a'r ystod o gyfleoedd y gallai'r cronfeydd a'r adnoddau newydd hyn helpu i'w cyflawni, sy'n cynnwys:

- Swyddog Trefi Marchnad a fydd yn gweithio gyda'r tref i weithredu camau a nodwyd yn y cynlluniau twŦ economaidd
- Cyllid newydd i helpu'r trefi i gefnogi a datblygu argymhellion sy'n codi o'r cynllun twŦ
- Potensial ar gyfer cyllid cyfalaf newydd i gefnogi syniadau a nodwyd yn y cynllun ac i gefnogi datblygiad cychwyn busnes mawr ei angen a thyfu ar ofod cyflogaeth.
- Cronfeydd Grant Busnes Cyngor Sir Gâr - cyfleoedd ar gyfer fusnesau i wneud cais am gefnogaeth trwy'r Gronfa Menter Wledig, Cronfa Datblygu Eiddo Masnachol, Cronfa Cychwyn Busnes a'r Gronfa Tyfu Busnes.
- Mentrau i gefnogi busnesau a chymunedau i gael cysylltiad rhynggrwyd cyflymach a fwy dibynadwy, a'r gweithrediad o'r ymdriniaeth tref SMART.

- Sicrhawyd cyllid ar gyfer marchnata a hynodrwydd lleol, cynnwys deunydd hyrwyddo a chynnwys cyfryngau cymdeithasol wedi'i baratoi ar gyfer pob tref.
- Cynlluniau Ynni Cymunedol - Bydd Ynni Sir Gâr yn helpu cymunedau i adnabod a chwmpasu safleoedd posibl ar gyfer cynhyrchu ynni cymunedol.
- Economi Gylchol – cefnogi gyda mentrau sy'n tyfu cynhyrchion a gynllunir gan weithgynhyrchwyr fel y gellir eu hailddefnyddio, ac aildddefnyddio deunyddiau.

Y Camau Nesaf

Mae'r cynllun hwn wedi cael ei ddrafftio ar sail ymchwil annibynnol, trafodaethau â busnesau a rhanddeiliaid i'r diben o annog trafodaeth ehangach a sylwadau. Bydd yr adborth a dderbyniwn yn cael ei ddefnyddio i gadarnhau blaenoriaethau a chamau allweddol i Gydweli a bydd fersiwn derfynol y cynllun yn cael ei gynhyrchu erbyn diwedd haf 2021.

Cysylltu

Os ydych eisiau wneud sylwad ar y cynllun drafft, rhannwch eich adborth ar:
kidwelly.carmarthenshire-towns.info

Neu gallwch gysylltu â'r tîm:

Owen Davies

CYFARWYDDWR PROSIECT
owen@owendaviesconsulting.co.uk

David Jones

ARWEINYDD AM GYDWELI
David.jones@chilmarkconsulting.co.uk

